
Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU | Funded by UK Government

# Gweminar Hawliad Terfynol CFFG Gogledd Cymru

Chwefror 25, 2026

# Cwestiynau



Codwch eich llaw os ydych eisio gofyn cwestiwn



Gofynnwch cwestiwn yn y sgwrs

# Rhaglen

- Dogfennau Hawliad Terfynol
  ✓ Ffurflen Hawlio Terfynol (excel)
  ✓ Adroddiad Cynnydd Terfynol
  ✓ Adroddiad Gwerthuso
- Terfynau Amser Hawliad
- Samplau Dilysu
- Amcan gwariant diwedd y flwyddyn
- C&A

# Hawliad Grant Terfynol - Dogfennau Angenrheidiol

1. **Ffurflen Hawlio Grant (excel)-** taenlen bwrpasol i adrodd ar drafodion gwariant, allbynnau, canlyniadau a gweithgaredd caffael

2. **Templed Adroddiad Cynnydd Terfynol** – mae angen lawrlwytho ’r templed Adroddiad Cynnydd Terfynol oddi ar ein gwefan ranbarthol

3. **Adroddiad Gwerthuso** – fersiwn drafft i’w gyflwyno efo hawliad rhif 4

# Ffurflen Hawlio Terfynol (excel)

**Defnyddiwch y fersiwn ddiweddaraf o'ch taenlen ffurflen hawlio bwrpasol, i gyflwyno'ch hawliad terfynol.**

- **Crynodeb o Atodiad B** – hwn fydd yr Atodiad B a gymeradwywyd diweddaraf yn dilyn unrhyw geisiadau am newid sydd wedi ei gymeradwyo (os yw'n berthnasol)

- **Datganiad a Thrafodion Hawliad Terfynol -** Rhaid i bob trafodiad fod wedi ei ddyddio o fewn amserlen y prosiect.
  Gallwch gynnwys gwariant sy'n ymwneud ar prosiect cyn dyddiad gorffen y prosiect a sydd heb hawlio yn barod.
  Gallwch hefyd cynnwys gwariant tu allan i'r cyfnod hawlio, h.y. gwariant sy'n ymwneud â chyfnodau hawlio blaenorol ond mi fydd angen roi sylwadau i esbonio pam nad yw'r costau yma wedi'u hawlio o'r blaen.

- Gwnewch yn siŵr bod y Rhestr Wirio Hawliad yn nodi **Cyflawn**, os oes gennych unrhyw ddarnau **Anghyflawn,** bydd angen i chi adolygu'r wybodaeth.

- Yn yr adran Datganiad, defnyddiwch yr opsiwn i gadarnhau os mai hwn yw'ch Hawliad Terfynol.

Dylai'r ffurflen hawlio grant hon gael ei llofnodi gan swyddog awdurdodedig.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Llofnod | | Enw | |
| | | Teitl Swydd | |
| | | Dyddiad | |
| | | Hawliad Terfynol | |

Ia
Na

# Ffurlen Hawlio Terfynol (Excel)

- **Allbynnau :** Defnyddiwch y darn sylwadau i gadarnhau pa dystiolaeth sy'n cael ei gadw i gefnogi'r allbwn. Nodwch os oes unrhyw danberfformiad wedi'i drafod gyda'r tîm lleol.
- **Canlyniad:** Defnyddiwch y darn sylwadau I gadarnhau pa dystiolaeth sy'n cael ei gadw I gefnogi'r canlyniad. Nodwch os oes unrhyw danberfformiad wedi'I drafod gyda'r tim Lleol.
- **Cynllun Cyflawni a Cherrig Milltir:** Dylai fod 'Ie' yn erbyn pob carreg filltir. *Os oes unrhyw reswm pam na fyddwch yn gallu cyflawni o fewn amserlen y prosiect, rhaid i chi drafod hyn gyda'ch tîm lleol neu Arweinydd Aml-ALl cyn gynted â phosibl. Peidiwch ag aros tan yr hawliad terfynol.*
- **Cofrestr Caffael a Risg:** Cwblhewch y darn sylwadau a gwnewch yn siŵr bod y tabiau yma yn cael eu diweddaru.
- **Tracio Hawliadau Prosiect:** Os bydd unrhyw rybuddion yn ymddangos mewn **COCH** rhaid i chi roi esboniad am hyn yn eich adroddiad Cynnydd Terfynol. *Mae'n bwysig eich bod yn trafod efo'ch tîm lleol / Arweinydd Aml-ALl am unrhyw danperfformio posib.*

| % Cyflawnwyd | RHYBUDDION | |
|---|---|---|
| 0% | Targed HEB ei gyflawni. | |

# Cofiwch!

- Gall eich hawliad terfynol fod yn seiliedig ar wariant a hysgwyddwyd (incurred) h.y. pan fydd gweithgaredd wedi'i gyflawni (nwyddau/gwasanaethau a dderbyniwyd) ond heb ei dalu eto.
- Bydd angen i chi sicrhau bod y gwariant wedi'i dalu, pan fyddwn yn gofyn am y sampl gwirio terfynol gennych.
- Ni fydd unrhyw gostau ar ôl dyddiad gorffen y prosiect yn gymwys am grant.
- Os oes gennych arian cyfatebol, gwnewch yn siŵr eich bod yn hawlio ac yn gwario'r grant UKSPF yn y lle cyntaf.
- Os yw'ch prosiect yn parhau i gael ei weithredu ar ôl dyddiad cwblhau prosiect UKSPF, gellir defnyddio arian cyfatebol. Yn dibynnu ar yr amserlen, efallai y byddwn yn gofyn am ragor o wybodaeth ar ôl dyddiad gorffen prosiect UKSPF ond ni ellir hawlio grant UKSPF.

# Adroddiad Cynnydd Terfynol

**Mae angen lawr llwytho’r templed Adroddiad Cynnydd Terfynol oddi ar Wefan Gronfa Ffyniant Gyffredin Gogledd Cymru**. [Cronfa Ffyniant Gyffredin: Gogledd Cymru - Hafan]
Mae angen trosolwg ym mhob darn ar gyflawni y prosiect.
**Mae angen adroddiad cynnydd terfynol hyd yn oed os ydych chi'n cyflwyno hawliad Sero**.

- **Gweithgaredd y Prosiect:** Nodwch y gweithgaredd ar gyfer y cyfnod hawlio.
- **Trosolwg o Weithgaredd y Prosiect:** Nodwch sut mae'r prosiect wedi cyflawni yn erbyn y **targedau a'r cyflawniadau cyffredinol a gymeradwywyd.** *Mae angen cynnwys manylion am dangyflawniadau a gorgyflawniadau.*
- **Cyhoeddusrwydd:** cynnwys manylion unrhyw astudiaethau achos, digwyddiadau dathlu a lansio prosiectau ac amlygu ar newyddion da.
- **Amodau Arbennig:** Esboniwch sut mae'r prosiect wedi bodloni'r holl amodau arbennig ag osodwyd. Gwnewch yn siŵr eich bod yn cyfeirio at y Cytundeb Ariannu Grant a'r llythyr amrywio os yw'n berthnasol.
- **Gwerthusiad Prosiect:** Rhowch crynodeb lefel uchel o'r adroddiad drafft a'r canfyddiadau erbyn y dyddiadau gofynnol. Nodwch efo pwy fydd yr adroddiad yn cael ei rannu.
- **Cofrestr Ased:** Nodwch pob ased sydd wedi ei ariannu drwy grant SPF o ddyddiad cychwyn y prosiect.
- **Iaith Cymraeg, Cydraddoldeb, Net Sero:** Crynhoi unrhyw weithgaredd sy'n cefnogi'r themâu trawsbynciol yma.

# Adroddiad Cynnydd Terfynol

- **Rheoli Cymhorthdal:** Nodwch sut mae'r prosiect wedi cydymffurfio â'r rheoliadau Rheoli Cymhorthdal a chadarnhau os yw'n berthnasol unrhyw gymorthdaliadau a uwch lwythwyd i'r gronfa ddata tryloywder.
- **Materion sy'n Codi / Gwersi a Ddysgwyd:** Nodwch unrhyw faterion yr ydych wedi dod ar eu traws sydd wedi effeithio ar gyflawni eich prosiect.
  Bydd y wybodaeth yma yn ddefnyddiol i lywio prosiectau a rhaglenni ariannu yn y dyfodol.
  Ystyriwch y canllawiau, prosesau cymeradwyo a hawlio, gwaith papur, trothwyon caffael, amserlen, cais i newid ayyb.
- **Cynllunio Ymlaen / Cynllun Ymadael:** Defnyddiwch yr adran yma i egluro eich cynllun ymadael ac unrhyw etifeddiaeth o'r prosiect. Cyfeiriwch at y cynllun ymadael a gyflwynwyd gyda'ch cais. Eglurwch unrhyw newidiadau o'ch cynllun gwreiddiol.
  Gellir defnyddio'r adran yma hefyd i roi manylion unrhyw wersi a ddysgwyd y byddwch chi yn eu rhoi ar waith.
- **Manylion cyswllt: Rhowch yr enw, a manylion cyswllt i bawb a fydd yn gallu cyflwyno'r dogfennu tystiolaeth a'r rhai sy'n gyfrifol am unrhyw asedau ar ôl cau'r prosiect**.
  Cofiwch bod angen ei cadw am cyfnod o 10 mlynedd o'r dyddiad y daw'r cyfnod ariannu i ben.

# Tips!

- Cadw eich tîm SPF lleol yn ymwybodol o unrhyw weithgaredd prosiect a canlyniadau â all effeithio ar wariant eich prosiect
- Peidiwch a disgwyl tan cyflwyno’r hawliad terfynol i drafod hyn.
- Gall unrhyw danwariant sylweddol **ohiro prosesu eich hawliad terfynol a'r taliad gael ei ryddhau.**

# Dyddiadau Cyflwyno Hawliadau

# Prosiectau sy’n dod i ben cyn 1 Ebrill 2026

| Prosiect yn gorffen yn 2025-26 | Hawliad 4<br>(Hawliad terfynol ac Adroddiad Gwerthuso Drafft) | | |
|---|---|---|---|
| Prosiect yn gorffen erbyn | Cyfnod Hawlio | Dyddiad Cyflwyno | Adroddiad Gwerthuso Terfynol dim hwyrach na |
| 31/03/2026 | 01/01/26 – 31/03/26 | 07/04/2026 | 01/05/2026 |

# Prosiectau sy’n dod i ben 1 Ebrill 2026 – 30 Mehefin 2026

| Prosiect yn dod I ben Ch1 2026-27 | Hawliad 5 (Hawliad Terfynol ac Adroddiad Gwerthuso Drafft ) | | |
|---|---|---|---|
| Dyddiad cwblhau prosiect | Cyfnod Hawlio | Dyddiad Cyflwyno | Adroddiad Gwerthuso Terfynol dim hwyrach na |
| 30/04/2026 | 01/04/26 - 30/04/26 | 14/05/2026 | 31/05/2026 |
| 31/05/2026 | 01/04/26 - 31/05/26 | 12/06/2026 | 30/06/2026 |
| 30/06/2026 | 01/04/26 - 30/06/26 | 14/07/2026 | 31/07/2026 |

# Prosiectau yn dod i ben 1 Gorffennaf 2026 – 30 Medi 2026

| Prosiect yn gorffen yn Ch2 | Hawliad 5 | | Hawliad 6 (Hawliad Terfynol ac Adroddiad Gwerthuso Drafft) | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Dyddiad Cwblhau Prosiect | Cyfnod Hawlio | Dyddiad Cyflwyno | Cyfnod Hawlio | Dyddiad Cyflwyno | Adroddiad Terfynol dim hwyrach na |
| 31/07/2026 | 01/04/26 - 30/06/26 | 14/07/2026 | 01/07/26 - 31/07/26 | 14/08/2026 | 31/08/2026 |
| 31/08/2026 | 01/04/26 - 30/06/26 | 14/07/2026 | 01/07/26 - 31/08/26 | 14/09/2026 | 30/09/2026 |
| 30/09/2026 | 01/04/26 - 30/06/26 | 14/07/2026 | 01/07/26 - 30/09/26 | 14/10/2026 | 31/10/2026 |

# Samplau Dilysu

Bydd eich cais terfynol yn destun gwiriad sampl dilysu.

**Efallai y bydd sampl yn cael ei ddewis o:**

- Rhestr trafodion gwariant,
- Allbynnau a/neu Ganlyniadau a gyflawnwyd hyd yn hyn,
- Gweithgareddau Caffael – os ydych wedi cyflwyno adroddiad tendr gwerthuso/datganiad, ni fydd angen ei gynnwys
- Gweithgareddau marchnata – os ydych wedi cyflwyno samplau efo'r adroddiad cynnydd, ni fydd angen ei gynnwys

**Byddwn yn eich hysbysu o'r sampl ar ôl  rhyddhau y taliad grant.**

Bydd gennych **10 diwrnod gwaith** i ddychwelyd y dystiolaeth ategol ar gyfer y sampl**.**

Mi fydd angen ad-dalu grant os  darganfyddir unrhyw wariant anghymwys yn ystod y broses ddilysu.

# Amcangyfrif o wariant

- Rydym yn defnyddio **Cyfrifyddu Cronedig** (Accural Accounting) i gofnodi incwm a gwariant wedi'u hysgwyddo (incurred) ac nid pan fydd gwariant yn cael ei dalu.
-
- **Mae'n angenrheidiol bod prosiectau sy'n gorffen mis Mawrth 2026 neu'n hwyrach, yn anfon amcangyfrif o wariant erbyn 20 Mawrth, 2026.**
  Mae rhaid rhestru pob gwariant mae'r prosiect yn bwriadu ei hawlio o fewn Hawliad 4, h.y. pob gwariant a ysgwyddwyd erbyn 31 o Fawrth 2026, ond heb ei hawlio eto.

- **Does dim angen I brosiectau sy'n dod I ben 28 Chwefror, 2026, gyflwyno amcangyfrif o wariant**. Hawliad 4 fydd ei hawliad terfynol sydd angen ei gyflwyno erbyn 13 o Fawrth, 2026.

# Amcangyfrif o wariant

**Sut i gyflwyno'r Amcangyfrif Gwariant?**

- **Defnyddiwch y ferswn ddiweddaraf o’ch ffurflen hawlio bwrpasol I gyflwyno’ch amcangyfrif.**
- Dim ond y tab 'Hawliad Datganiad a Thrafodiadau4’ sydd angen I chi gwblhau gyda’r eitemau gwariant rydych yn bwriadu ei hawlio yn eich hawliad Rhif 4
- 
- **Pwysig!  Byddwch yn ofalus wrth baratoi eich amcangyfrif.**
  **NI ALL GWERTH HAWLIAD 4 FOD YN FWY NA'CH AMCANGYFRIF.**
- Cyflwynwch y ffeil drwy e-bost i dîm SPF Rhanbarthol Gogledd Cymru erbyn y dyddiad cyflwyno i ffyniantgyffredingogleddcymru@gwynedd.llyw.cymru.

# Crynodeb

- Cymerwch amser i adolygu'r Dogfen Canllawiau Hawliad Grant.
- Os byddwch yn cyflwyno eich hawliad terfynol yn hwyr, ni allwn warantu y byddwch yn cael eich talu.
- Os ydych chi'n rhagweld y bydd yr hawliad yn hwyr, mae'n hanfodol eich bod chi'n cysylltu ar unwaith.
- Bydd eich amserlen hawlio derfynol yn cael ei gadarnhau mewn e-bost gyda'ch llythyr amrywio.
- Rhowch wybod i'ch tîm SPF lleol / Arweinydd Aml-Sir am unrhyw danberfformiad posib. Rhaid gwneud hyn cyn cyflwyno eich cais terfynol
- Os oes angen unrhyw gymorth arnoch, cysylltwch â'ch Tîm SPF Lleol / Arweinydd Aml-Sir yn y lle cyntaf

# Crynodeb

- **Dyddiad gorffen terfynol y prosiect -** Rhaid i'r holl weithgaredd ar gyfer eich prosiect ddod i ben ar y dyddiad yma. Rhaid i'r holl weithgaredd gael ei ddyddio hyd at y dyddiad gorffen hwn ac anfonebau gwariant gwirioneddol. Ni fydd unrhyw weithgaredd nac anfonebau sy'n cael eu dyddio ar ôl y dyddiad hwn yn gymwys.

- **Cau prosiectau UKSPF –** sicrhewch eich bod yn cadw pob dogfen mewn perthynas â phrosiect UKSPF am 10 mlynedd o'r dyddiad y daw'r cyfnod ariannu i ben mewn porth addas. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i: Pob hawliad grant a dogfen ategol, gan gynnwys adroddiadau cynnydd. Holl ddogfennau caffael, pob cyhoeddusrwydd sy'n hyrwyddo grant UKSPF, cofrestr asedau (cofiwch ddiweddaru hyn os oes unrhyw newidiadau), tystiolaeth ar gyfer yr holl allbynnau a chanlyniadau a adroddwyd. (hyd yn oed os ydym wedi gofyn am y dystiolaeth fel rhan o'r broses sampl dilysu ai peidio)

- **Dim tystiolaeth ar gyfer canlyniadau prosiectau tan ar ôl dyddiad gorffen y prosiect** – dim tystiolaeth = dim ei gynnwys. Efallai y bydd eich Tîm SPF Lleol / Arweinydd Aml Sir yn trafod i adrodd arnynt ar ôl dyddiad gorffen y prosiect. Pan na fodlonir y ffigurau targed, bydd angen manylion pryd rydych yn disgwyl cyrraedd y targed, cerrig milltir/cynllun gwaith.

# Cwestiynau ac Atebion

# Apêl fach gyflym…

Wrth i ni nesáu at gau rhai o'r prosiectau SPF, mae'n bwysicach nag erioed i gynnwys unrhyw astudiaethau achos, straeon cadarnhaol, neu adnoddau rydych wedi'u creu yn eich Adroddiad Cynnydd Terfynol… neu gallwch eu hanfon atom ni'n uniongyrchol.

ffyniantgyffredingogleddcymru@gwynedd.llyw.cymru